# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adroddiad Dyletswydd Adran 6 Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2023-2025

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Cynnwys**


- **Crynodeb**
- **Cyflwyniad a'r cyd-destun**
- **Uchafbwyntiau, canlyniadau a materion allweddol**
- **Sylfaen dystiolaeth a fframwaith polisi**
- **Adolygu'r Meini Prawf ar gyfer Dewis Safleoedd SINC**
- **Asesiad Effaith y SRhP**
- **Adroddiad Dyletswydd Adran 6**
- **Camau a gymerwyd**
- **Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6 – Argymhellion ar gyfer rheoli a gwella perfformiad**
- **Casgliad**
- **Atodiad 1: Lluniau a dolenni i newyddion/storïau**
- **Atodiad 2: Asesiad Effaith y SRhP a Rhestr Wirio**

**Crynodeb**

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i baratoi adroddiad tair blynedd ar gyfer 2023-2025 fel sy'n ofynnol dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a elwir fel arall yn ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau cyrff cyhoeddus, (neu'r ddyletswydd A6). Mae fformat yr adroddiad yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn amlinellu cyfraniad y Cyngor i chwe amcan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Adfer Natur (NRAP) 2020.

Dyma'r trydydd adroddiad, ac mae'n adlewyrchu'r mewnbwn gan ystod eang o feysydd gwasanaeth y Cyngor, yn cynnwys cyfraniadau sylweddol gan Dîm yr Amgylchedd Naturiol a swyddogion ar draws y sefydliad ehangach. Mae'n tynnu sylw at gynnydd parhaus wrth ymgorffori'r Ddyletswydd A6, gan gynnwys integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth i brosesau cynllunio wrth ddefnyddio tir, ehangu ac arallgyfeirio arferion rheoli mannau gwyrdd, ac ymgysylltu'n barhaus â'r Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur trwy Grwpiau Cyflawni sefydledig y Swyddogion.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, aeth y Cyngor ati i adolygu'r Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a gomisiynwyd yn wreiddiol yn 2019, a'i ddiweddaru. Mae'r cynllun bellach yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol, polisi a sefydliadol a bydd yn llywio camau gweithredu yn y dyfodol sy'n cyd-fynd â'r Ddyletswydd A6 a'r Argyfwng Hinsawdd a Natur.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn gryfder sylweddol. Mae mentrau ar raddfa eang, drawsffiniol, fel Prosiect Grid Gwyrdd Gwent (PGGG) a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LP4N) yn dangos manteision cyflawni ar y cyd. Mae'r bartneriaeth hirsefydlog gyda Blaenau Gwent drwy'r Bartneriaeth Natur Leol ar y cyd yn parhau i fod yn fecanwaith allweddol o ran gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig. Yn dilyn digwyddiad gwych Ewch yn Wyllt a gynhaliwyd ym Mlaenau Gwent yn 2023, cyflwynodd y Bartneriaeth ddigwyddiad 'Ewch yn Wyllt' hynod lwyddiannus ym Mharc Pont-y-pŵl yn 2024, i ddathlu cyflawniadau lleol i wella bioamrywiaeth. Yn ogystal, fe wnaeth Torfaen gael swm o £808,000 yn 2025 ar gyfer rhaglen Trefi a Dinasoedd Natur, a fydd yn cefnogi camau adfer natur pellach yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Mae rhaglen dreigl yn mynd rhagddi i reoli cynefinoedd ymhob un o'r wyth Gwarchodfa Natur Lleol (GNLl). Mae rhaglen strategol torri grug ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Blorens yn parhau i gyfrannu at rhwymedigaethau tirfeddianwyr a lleihau'r perygl o danau gwyllt. Mae arolygon cyflwr grug hefyd wedi'u cynnal mewn cydweithrediad â CNC. Mae fwyfwy o laswelltir a reolir gan y Cyngor bellach yn destun mesurau rheoli blynyddol er lles bioamrywiaeth a buddion carbon. Mae camau ychwanegol yn cynnwys creu dolydd, plannu coed, pori sy'n ystyriol o gadwraeth, a gwella cynefinoedd ar hyd afonydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi caffael Coed Meyric Moel, coetir ger GNL Henllys, fel y gellir rheoli bioamrywiaeth yn y tymor hir. Mae Torfaen hefyd wedi llwyddo i ddynodi ei wythfed gwarchodfa natur

leol – GNL Blaenserchan ac i ddathlu, cynhaliwyd agoriad swyddogol cyhoeddus yn 2025.

Mae tystiolaeth gadarn yn sail i wneud penderfyniadau effeithiol. Mae diweddariadau parhaus i setiau data GIS a mynediad parhaus at wybodaeth bioamrywiaeth wedi'i gwirio gan Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBReC) yn adnoddau hollbwysig i swyddogion. Cefnogir y gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) gan arolygon Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) wedi'u diweddaru, ac asesiadau tirwedd ac ecoleg ar gyfer safleoedd ymgeisiol. Mae adolygiad ar y cyd o feini prawf dethol safleoedd SINC ar gyfer Torfaen a Blaenau Gwent wedi'i gwblhau ac yn cael ei gymeradwyo gan y cabinet. Nod y meini prawf diwygiedig yw:

- Moderneiddio a chryfhau'r gwaith i ddiogelu bioamrywiaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth, y polisi a'r ddealltwriaeth ecolegol gyfredol.
- Cefnogi cydnerthedd ecosystemau trwy gymhwyso fframwaith DECCA.
- Sicrhau bod safleoedd SINC yn parhau i ddarparu offeryn cynllunio a chadwraeth effeithiol sy'n darparu buddion o ran y gymuned a llesiant.
- Cyflawni dyletswyddau statudol a chyfrannu at dargedau cenedlaethol, gan gynnwys yr ymrwymiad i ddiogelu 30% o dir er lles natur erbyn 2030.
- Hyrwyddo'r gwaith i adfer natur yn y tymor hir ar sail tystiolaeth trwy weithio mewn partneriaeth ar draws yr awdurdodau.

Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer y Ddyletswydd A6 bellach wedi'u gwreiddio yng Nghynllun Gweithredu Argyfwng yr Hinsawdd a Natur ac maent yn parhau i gael eu cefnogi gan gyfres o strategaethau cyflenwol, gan gynnwys y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd (2020), y Strategaeth Goed, a Chynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Torfaen 2025-2030: *Natur -Bositif erbyn 2030*. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ffurfio fframwaith polisi cryfach i gyflawni'r ddyletswydd Adran 6 ar draws swyddogaethau'r Cyngor.

Er bod yr adroddiad yn dangos cynnydd sylweddol ers 2022, wrth ymgynghori â swyddogion nodwyd hefyd feysydd lle mae angen gweithredu pellach. Yn unol â thempled adrodd A6 Llywodraeth Cymru, awgrymir nifer o gamau gweithredu i helpu i gyfrannu tuag at wreiddio'r ddyletswydd A6 ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

## 1.0 Cyflwyniad a’r cyd-destun

Mae cynllun a chynnwys yr adroddiad hwn yn dilyn canllawiau yn *Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Llywodraeth Cymru, Rhan 1: Canllawiau ar gyfer Adran 6 - Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, Canllawiau Adrodd 2019)*. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd uwch ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. I gydymffurfio ag Adran 6, mae’n ofynnol i awdurdodau sicrhau eu bod yn gwreiddio ystyriaeth o fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau wrth fynd ati yn y camau cynnar i ddatblygu polisïau, cynllunio busnes, cynllunio rhaglenni a phrosiectau, ac yn eu gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae'r fath ddull rhagweithiol yn hanfodol i gyflawni'r ddyletswydd a chyfrannu at uchelgeisiau cenedlaethol ehangach ar gyfer adfer natur.

Nodweddion amgylchedd naturiol y Fwrdeistref Sirol yw gweundiroedd grugog, coedlannau hynafol a dolydd cyfoethog mewn blodau gwyllt sy’n cefnogi bywyd gwyllt sy’n dirywio’n genedlaethol ac sy’n bwysig yn lleol. Mae llawer o’r rhywogaethau a’r cynefinoedd yn bwysig iawn yng Nghymru fel y’u rhestrir dan adran 7 (A7)Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae gan Dorfaen hefyd bedwar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), saith Gwarchodfa Natur Leol (GNL) ynghyd â mwy na 150 o Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC). Mae Afon Lwyd, Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu a’r mannau gwyrdd sy’n gysylltiedig â’r rhwydwaith beicio yn goridorau llinellol strategol i fywyd gwyllt sy’n ymestyn ar hyd a lled y fwrdeistref sirol.


Mae gweithredu dyletswydd A6 yn cyfrannu tuag at gyflenwi dyletswyddau statudol eraill, yn enwedig y ddyletswydd datblygiad cynaliadwy dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 a’r Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022 gyda’i darged 30x30. Mae Datganiad Llesiant Torfaen 2022-2027 wedi ymgorffori yr amgylchedd yn ei amcanion.

I helpu i gydgysylltu’r gwaith o weithredu dyletswydd A6 ar draws meysydd gwasanaeth y Cyngor, paratowyd Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2019 a chafodd ei adolygu a’i ddiweddaru yn 2025. Mae’n cynnwys cynllun i weithredu yn erbyn amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP). Mae cyflenwi’r cynllun hwn a’r camau gweithredu ynddo nawr yn ffurfio rhan o ymateb y Cyngor i’r Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd yn Nhorfaen ym mis Mehefin 2019 a’r Argyfwng Natur a ddatganwyd wedyn ym mis Medi 2021.
Wrth fynd ati i baratoi’r adroddiad hwn, aethpwyd ati i ymgysylltu ac ymgynghori ag ystod eang o swyddogion ac adrannau’r Cyngor, a chasglu amrediad o ymatebion manwl.

## 2.0 Uchafbwyntiau, canlyniadau a materion allweddol

Drwy ganllawiau sydd wedi eu nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru rhifyn 12, mae timau Rheoli Datblygu a Pholisi Cynllunio a Gweithredu Torfaen yn parhau i gysylltu'n rhagweithiol gyda'r ddyletswydd A6, drwy sicrhau bod holl geisiadau cynllunio yn ceisio cynnwys mesurau positif i wella bioamrywiaeth (cynnydd net) a Datganiad SG.

Mae'r Grŵp Polisi Amgylchedd Naturiol a Gweithrediadau Strydlun yn gyfrifol am reoli'r rhan fwyaf o stad feddal y Cyngor. Dangosir hyn drwy raglen o reoli glaswelltir trefol ac ystyriaethau iechyd a diogelwch coed. Drwy addasu arferion gwaith, mae'r tîm wedi cyflwyno rhaglen dorri a chasglu sy'n llwyddo i ystyried natur. Ar hyn o bryd, mae 33% o laswelltir trefol y cyngor nawr yn cael ei reoli i ystyried bioamrywiaeth drwy dorri unwaith y flwyddyn, a'r uchelgais yw cynyddu hyn mwn blynyddoedd i ddod. Gwireddwyd y gwelliannau hyn drwy gaffael offer newydd a ariennir drwy raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, a thrwy gefnogaeth frwdfrydig staff Gweithredol Strydlun.




The estimated total area of Council owned land managed for biodiversity is 33% or 767 Hectares (an increase from 31% in 2023/24). During 2024/25 the designation of a new LNR at Blaenserchan was completed increasing the total area of local nature reserves to 9.5% or 220 Hectares. Grassland sites contribute 1.4% or 32 Hectares; woodland sites contribute 1% or 23 Hectares and the Blorenge SSSI contributes 20.9% or 487 Hectares. Other sites (Llantarnam SINC & Coed Meyric Moel) contribute 5.2 Hectares of 0.2%.

Mae'r gwaith i ddatblygu'r polisïau ac integreiddio dyletswydd Adran 6 yng nghynlluniau, prosiectau a rhaglenni'r Cyngor wedi symud ymlaen yn sylweddol. Mae tystiolaeth o hyn i'w weld yn adolygiad y BERP, adolygiad o Feini Prawf SINC ac asesiad effaith a gafodd ei baratoi i'w defnyddio gan dîm y SRhP. Mae hyn yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried yn briodol ar ddechrau prosiectau/gwaith newydd. Trwy gydnabod bod newid yn yr hinsawdd a dirywiad bioamrywiaeth yn gwbl gysylltiedig , mae'r penderfyniad i alinio dyletswydd Adran 6 â thargedau sero net y Cyngor a'r Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a

Natur wedi cefnogi'r gwaith i brif ffrydio bioamrywiaeth ymhellach ar draws meysydd polisi. Mae cyflawni'r ddyletswydd Adran 6 o fewn gwasanaethau rheoli gwastraff ac adnoddau wedi cryfhau'r broses o integreiddio'r camau i ystyried bioamrywiaeth wrth gaffael, rheoli contractau, dylunio gwasanaethau a mentrau sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Er y gall rhwymedigaethau gwastraff statudol gyfyngu ar gwmpas camau gweithredu natur gadarnhaol, mae'r gwasanaeth yn parhau i nodi cyfleoedd i ymgorffori bioamrywiaeth trwy ymrwymiadau gwerth cymdeithasol, prosesau monitro a gweithio ar y cyd. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys adolygu'r mecanweithiau hyn yn barhaus, ac ymgorffori'r hyn a ddysgir yn adroddiad nesaf Cynllun Gweithredu Adran 6.

Er bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Ddyletswydd 6 wedi gwella ar draws y meysydd gwasanaeth, mae rhai bylchau'n parhau i fodoli o ran cydymffurfio. Bydd angen ymgysylltu'n barhaus gydag arweinwyr timau fel Rheoli Asedau, Rheoli Eiddo, Priffyrdd a Pheirianneg a Draenio a Rheoli Llifogydd, i sicrhau bod llai o risgiau cydymffurfio, ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd. **Yn gyffredinol gwelwyd newid calonogol o ran sut mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei werthfawrogi a'i integreiddio yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud o ddydd i ddydd, a gweithgareddau gweithredol y Cyngor.**

## 3.0 Sylfaen dystiolaeth a fframwaith polisi

Mae'r cynlluniau, y polisïau a'r strategaethau lleol a rhanbarthol canlynol yn ffurfio'r sylfaen dystiolaeth eang a'r fframwaith polisi ar gyfer gweithredu dyletswydd A6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chymru'r Dyfodol 2040, o'r genedlaethol i'r lleol.

**Tabl yn Crynhoi'r Fframwaith Polisi a Thystiolaeth**

| Lefel | Dogfen / Strategaeth |
|---|---|
| **Cenedlaethol (Cymru)** | Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) |
| | Cynllun Adfer Natur Cymru (NRAP) |
| | Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 |
| | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 |
| | Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio |
| **Rhanbarthol (De-ddwyrain Cymru** | Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru |
| | Adroddiad Cyflwr Natur Gwent |
| | Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Pryfed sy'n Peillio yn Ne-ddwyrain Cymru |
| | Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol ar gyfer De-ddwyrain Cymru |
| | Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol Ucheldiroedd De-ddwyrain Cymru |
| | Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent (NRAP) |
| | Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent |
| **Lleol (Torfaen)** | Cynllun Sirol |
| | Strategaeth Seilwaith Gwyrdd |
| | Drafft o'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd |
| | Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd |
| | Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (BERP) 2025–2030 |

| Lefel | Dogfen / Strategaeth |
|---|---|
| | CCA Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig – Atodiad 5 'Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Chydnerthedd Ecolegol' |
| | CCA Briff Dylunio, Uwchgynllunio a Datblygu Safleoedd |
| | CCA Ymestyn ac Addasu Tai |
| | CCA Lleoliadau Cynaliadwy |
| | Canllawiau cynllunio a bioamrywiaeth ar gyfer ceisiadau gan ddeiliaid tai a mân geisiadau eraill |
| | CDLlN Torfaen: Adroddiad Cwmpasu Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd (yn cynnwys sylwadau CNC) |
| | Strategaeth Coed |
| | Cynllun Llesiant |
| | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) |
| | Cynllun Datblygu Lleol |
| | Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur |
| | Drafft o Adroddiad ac Asesiad Mannau Agored |

## 3.1 Adolygu’r Meini Prawf ar gyfer Dewis Safleoedd SINC

Mae meini prawf wedi'u diweddaru ar gyfer dewis Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur yn cael eu cymeradwyo drwy'r cabinet yn Nhorfaen.

Mae safleoedd sy'n bwysig er cadwraeth natur (SINC) yn cynrychioli categori allweddol o ddynodiadau cadwraeth natur anstatudol, y cyfeirir atynt yn gyffredinol ledled y DU fel ‘safleoedd bywyd gwyllt lleol’.  Mae'r safleoedd hyn yn cwmpasu ystod amrywiol o gynefinoedd lled-naturiol sydd â gwerth ecolegol sylweddol ar lefel ranbarthol, sirol neu ardal. Mae adnabod, gwarchod a gwella safleoedd SINC yn hanfodol i gynnal bioamrywiaeth yn Nhorfaen a Blaenau Gwent, gan sicrhau bod cynefinoedd gwerthfawr, sy’n amrywio o byllau bach i goetiroedd hynafol eang a glaswelltiroedd sy'n gyfoethog o rywogaethau, yn cael eu gwarchod am eu pwysigrwydd ecolegol. Mae Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) wedi'u lleoli ar dir cyhoeddus a phreifat, ac maent yn amrywio'n eang o ran maint a ffurf. Mae Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) yn gwasanaethu fel rhybudd cynnar i ddarpar ddatblygwyr, gan eu bod yn nodi bod gan leoliad werth bioamrywiaeth sylweddol. Rhaid i unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar safle o'r fath fod yn destun asesiad ecolegol cynhwysfawr , a rhaid ymgorffori mesurau lliniaru cadarn i ddiogelu uniondeb ecolegol y safle.  Gan fod Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) yn ddynodiadau anstatudol, maent yn cael eu diogelu drwy bolisi cynllunio. Yng Nghynghorau Torfaen a Blaenau Gwent, cyflawnir hyn yn bennaf drwy Gynllun Datblygu Lleol.

Mae'r gwaith o nodi Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) yn cael ei arwain gan awdurdodau lleol a sefydliadau bywyd gwyllt. Defnyddir canllawiau gwyddonol i asesu’r rhywogaethau a'r cynefinoedd mwyaf sydd o dan fygythiad fwyaf ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Yn hanesyddol, mae safleoedd SINC yn Ne Cymru wedi'u dynodi yn seiliedig ar y *Canllawiau ar gyfer Dewis Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne*

*Cymru* a *Meini Prawf Cymoedd y Canolbarth i Ddewis SINC* (Ymddiriedolaeth Natur Gwent, 2004 a 2008).

Er bod y canllawiau hyn wedi rhoi sylfaen gadarn, maent bellach dros ddau ddegawd oed ac nid ydynt yn adlewyrchu'r datblygiadau deddfwriaethol na'r polisi diweddar yn llawn, nac ychwaith cyd-destun ecolegol penodol Blaenau Gwent a Thorfaen. I fynd i'r afael â hyn, mae meini prawf wedi'u diweddaru wedi'u datblygu i ymgorffori blaenoriaethau bioamrywiaeth cyfoes ac egwyddorion cydnerthedd ecosystemau, fel y'i diffinnir gan fframwaith DECCA yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r fframwaith hwn yn rhoi pwyslais ar:

- **Amrywiaeth** o fewn ecosystemau a rhyngddynt
- **Maint** neu raddfa ecosystemau
- **Cysylltedd** ar draws rhwydweithiau ecolegol
- **Cyflwr** ecosystemau, gan gynnwys strwythur a swyddogaeth
- **Addasrwydd** y gallu i addasu i newid amgylcheddol

Mae'r meini prawf sydd wedi'u diweddaru yn sicrhau bod safleoedd SINC yn parhau i chwarae rôl hanfodol wrth ddiogelu bioamrywiaeth a chefnogi rhwydweithiau ecolegol gwydn.

## 3.2 Asesiad Effaith y SRhP

Yn dilyn cydweithio rhwng y Tîm SRhP a'r Tîm Amgylchedd Naturiol, cydnabuwyd y byddai mecanwaith cyfnod cynnar ar gyfer nodi cyfyngiadau ecolegol posibl yn cryfhau’r gallu i integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth ar draws pob prosiect. Mewn ymateb, datblygodd Ecolegydd y Cyngor offeryn asesu effaith ecolegol pwrpasol i'w ddefnyddio gan y Tîm SRhP wrth gychwyn y prosiect. Mae'r offeryn hwn yn gwella gallu'r Cyngor i ddangos cydymffurfiaeth gadarn a chyson â’r Ddyletswydd Adran 6. Bydd hyn yn cefnogi ymwybyddiaeth a chyflawni gofynion bioamrywiaeth yn well ar draws y meysydd gwasanaeth ehangach, yn ogystal â’r gwaith arbenigol y mae’r Tîm Amgylchedd Naturiol yn ymgymryd ag ef. Mae'r ddogfen hon i'w gweld yn yr atodiad i’r adroddiad hwn.

### 4.0 - Adroddiad Dyletswydd Adran 6

Mae Polisi Cyfoeth Naturiol (NRP) **Llywodraeth Cymru yn gosod y** cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy, gan nodi'r heriau amgylcheddol allweddol a'r cyfleoedd sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw. Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn yn cael eu trosi i risgiau rhanbarthol, cyfleoedd a chamau gweithredu sy’n seiliedig ar le trwy ddatblygu **Datganiadau Ardal**. Mae Torfaen, ochr yn ochr â Blaenau Gwent, yn dod o dan Ddatganiad De-ddwyrain Cymru, sy’n pwysleisio’r angen i weithio ar y cyd ar raddfa eang, atgyfnerthu gallu’r

gymuned i ymwneud â'r amgylchedd naturiol, a dulliau effeithiol o addasu a lliniaru'r hinsawdd.

I ategu hyn, mae **Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru** yn nodi fframwaith cyffredinol Llywodraeth Cymru i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'n nodi'r camau gweithredu sydd o flaenoriaeth y mae eu hangen ar draws sectorau. Ac mae'n darparu chwe amcan strategol y disgwylir i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, gyfrannu atynt mewn modd ystyrlon a chynaliadwy i adfer natur.

**1. Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel**

Mae'r amcan hwn yn cryfhau bioamrywiaeth trwy sicrhau bod *pawb* sy'n gwneud penderfyniadau - o awdurdodau lleol i grwpiau cymunedol, yn deall gwerth natur ac yn ei ymgorffori yn gynnar mewn prosesau cynllunio. Mae cynyddu ymwybyddiaeth yn helpu i atal gweithredoedd sy'n niweidio ecosystemau yn anfwriadol ac yn hyrwyddo dewisiadau sy'n cefnogi cydnerthedd ecolegol. Drwy ymgorffori bioamrywiaeth yn nulliau rheoli beunyddiol, mae Cymru yn lleihau'r risg o ddiraddio ecosystemau yn y tymor hir.

**2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well**

Mae diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd a nodwyd yn flaenoriaethau o dan ddeddfwriaeth Cymru yn hanfodol fel nad yw bioamrywiaeth yn dirywio ymhellach. Mae rheoli cynefinoedd allweddol yn cynnwys safleoedd dynodedig yn effeithiol, yn helpu i gynnal amrywiaeth genetig, sefydlogi ecosystemau, a sicrhau goroesiad rhywogaethau sy'n sail i swyddogaethau ecolegol. Mae'r amcan hwn yn sicrhau bod ecosystemau hanfodol yn parhau i fod yn gyfan ac yn wydn os ydynt dan bwysau.

**3. Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy gwydn drwy adfer cynefinoedd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd**

Trwy adfer ecosystemau sydd wedi diraddio ac ehangu rhwydweithiau cynefinoedd, mae'r amcan hwn yn mynd ati'n uniongyrchol i gryfhau cydnerthedd ecosystemau. Mae ecosystemau iach, cysylltiedig yn gallu gwrthsefyll aflonyddu fel newid yn yr hinsawdd, llygredd, a rhywogaethau ymledol. Mae creu cynefinoedd hefyd yn cynyddu cysylltedd ecolegol, gan alluogi rhywogaethau i symud, addasu a ffynnu.

**4. Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.**

Mae mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dirywiad bioamrywiaeth, fel llygredd, cynefinoedd yn chwalu, newid y defnydd o dir, a rhywogaethau ymledol - yn helpu i atal difrod pellach ac yn galluogi ecosystemau i adfer. Mae'r amcan hwn yn sicrhau bod Cymru yn targedu'r bygythiadau mwyaf sylweddol sy'n peryglu iechyd ecosystemau a'u cynaliadwyedd yn y tymor hir.

**5. Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro**

Mae tystiolaeth gref a dulliau monitro cadarn yn hanfodol o ran cyfarwyddo ymdrechion cadwraeth yn effeithiol. Mae gwella data ecolegol yn helpu awdurdodau i ganfod tueddiadau, nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, ac addasu strategaethau rheoli yn seiliedig ar wybodaeth amser real. Mae tystiolaeth well yn sicrhau bod y camau a gymerir yn cefnogi byd natur i adfer o ddifri ac yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r eithaf.

### 6. Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Mae fframwaith llywodraethu cryf, wedi'i gefnogi gan rolau, cyfrifoldebau a dulliau adrodd clir, yn sicrhau bod camau gweithredu cydgysylltiedig yn cael eu dilyn ar draws sectorau. Mae'r amcan hwn yn rhoi'r strwythur sydd ei angen i natur adfer mewn modd cyson ac atebol. Mae llywodraethu effeithiol yn helpu i gynnal momentwm, sicrhau buddsoddiad hirdymor, a bioamrywiaeth prif ffrwd ar draws yr holl swyddogaethau cyhoeddus.

Mae chwe amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a nodau cenedlaethol newid yn yr hinsawdd. Maent yn ymgorffori ystyried bioamrywiaeth ar draws y broses gwneud penderfyniadau, atgyfnerthu'r gwaith o ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau, a chefnogi cydnerthedd ecosystemau. Dyma gwyddorion allweddol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Drwy hyrwyddo'r gwaith o adfer cynefinoedd, mynd i'r afael â phwysau amgylcheddol, gwella tystiolaeth, a sefydlu mesurau llywodraethu cryf, mae fframwaith NRAP yn mynd ati'n uniongyrchol i gefnogi ymrwymiadau Cymru i atal colli bioamrywiaeth, gwella gweithrediad ecosystemau, a chyfrannu at addasu a lliniaru'r hinsawdd. Mae'r amcanion yn atgyfnerthu dull integredig Llywodraeth Cymru sy'n cysylltu adfer natur â gweithredu ar yr hinsawdd, yn enwedig drwy rwydweithiau ecolegol gwydn, rheoli cynefinoedd sy'n gyfoethog o ran carbon, ac atebion sy'n seiliedig ar natur sy'n sail i'r Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur a thargedau cenedlaethol fel diogelu 30% o dir ar gyfer natur erbyn 2030 (30x30).

**Camau a gymerwyd:**

| Amcan NRAP | Yr hyn y maen ei gwmpasu | Camau gweithredu a Chyflawniadau |
| --- | --- | --- |
| **1. Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.** | Ymwybyddiaeth, ymgysylltu, hyfforddiant, cyfathrebu, ac ymgorffori meddwl am fioamrywiaeth ar draws y sefydliad a'r cymunedau. | **Ymgysylltu â'r Gymuned ac Addysg**<br>• Parhau i gyflogi cydlynydd a chynorthwywyr bioamrywiaeth Partneriaeth Natur Leol, a phenodi Cydlynydd y Gamlas.<br>• Cyflwyno 2 ddigwyddiad Ewch yn Wyllt, un yn BG, un yn Nhorfaen.<br>• Datblygu modiwlau e-ddysgu mewnol ar newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur.<br>• Hyfforddiant pwrpasol i staff: Ystlumod yn yr Amgylchedd Adeiledig (2024/25).<br>• Ffilmiau ymwybyddiaeth: Caru Coed; Gwlypdiroedd Torfaen (isdeitlau Cymraeg); Mannau blodau gwyllt.<br>• Canllawiau gwella bioamrywiaeth ar gyfer ceisiadau cynllunio cartrefi a datblygiadau bach – mabwysiadu'r fersiwn a gynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy (Canllawiau Cymru Gyfan)<br><br>**Ymgysylltu ar Lefel Gwasanaeth a Newid Ymddygiad**<br>• Egwyddorion atal gwastraff ac ailddefnyddio, wedi'u hymgorffori yng nghynlluniau gwasanaethau craidd, gan sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio i benderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd.<br>• Cyflwyno casgliadau Offer trydanol ac electronig (WEEE) bach wrth ymyl y ffordd, lleihau deunyddiau peryglus sy'n mynd i mewn i ffrydiau gwastraff gweddilliol a gwella adfer adnoddau.<br>• Cyflwyno ymgyrchoedd newid ymddygiad sy'n canolbwyntio ar y gymuned—"Codi'r Gyfradd" a "Cystadlu gyda'r Cymdogion"—hyrwyddo ailddefnyddio, ailgylchu ac ymwybyddiaeth dinasyddion ynghylch defnyddio adnoddau mewn ffordd gyfrifol.<br><br>**Ymgorffori Bioamrywiaeth mewn Prosesau Corfforaethol**<br>• Prosiect y SRhP- Mae rhestr wirio gychwynnol bellach yn mynnu bod pob prosiect newydd yn cadarnhau sut y gall cynigion effeithio ar fioamrywiaeth ac a ydynt yn |

| Amcan NRAP | Yr hyn y maen ei gwmpasu | Camau gweithredu a Chyflawniadau |
|---|---|---|
| | | cyfrannu at y gwaith o'i gynnal a'i wella.<br>• Mae Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i gefnogi integreiddio'r ddyletswydd A6 trwy ddefnyddio Asesiad Effaith Integredig y Cyngor, gan sicrhau eu bod yn cyfeirio at ystyriaethau bioamrywiaeth mewn adroddiadau pwyllgor ac adroddiadau lle ceir penderfyniadau.<br>• Mae cyfleoedd gwirfoddoli i staff yn cael eu harchwilio a'u hyrwyddo i annog cyfranogiad mewn gweithgareddau sy'n cefnogi cynnal a gwella bioamrywiaeth ledled y sir.<br><br>**Addysg - Ymgorffori Bioamrywiaeth wrth Ddylunio a Datblygu Safleoedd Ysgol**<br>• Mae'r Tîm Dylunio Addysg a rheolwyr prosiect yn ymgorffori gofynion bioamrywiaeth fwyfwy yn y gwaith i adnewyddu a dylunio adeiladau ysgol newydd, gan sicrhau bod cyfleoedd i greu cynefinoedd, plannu SDCau a nodweddion rhywogaethol (e.e. blychau ystlumod ac adar) yn cael eu hystyried pan fydd y cysyniad yn cael ei drafod.<br>• Mae mwy o ymwybyddiaeth ar draws yr adrannau wedi arwain at nodi manteision bioamrywiaeth ar brosiectau mawr a gwelliannau i safleoedd ar raddfa lai.<br><br>**Adrodd a Chynllunio Strategol**<br>• Cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA): ar Bioamrywiaeth, Cydnerthedd a Datblygiad Ecosystemau (Chwefror 2024); Seilwaith Gwyrdd (Chwefror 2024); Lleoliadau Cynaliadwy (Mehefin 2023); Briff Dylunio, Uwchgynllunio a Datblygu Safleoedd, (Chwefror 2023); Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig Atodiad 5 'Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Chydnerthedd Ecolegol' (Chwefror 2023); Ymestyn ac Addasu Tai (Rhagfyr 2022) ynghyd â'r dogfennau ategol canlynol: 'Canllawiau cynllunio a bioamrywiaeth ar gyfer ceisiadau gan gartrefi a mân geisiadau eraill' a 'Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen: Adroddiad Cwmpasu Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd' (gan gynnwys sylwadau CNC) 2023. a ddefnyddir i ymgorffori bioamrywiaeth mewn penderfyniadau.  Yn ogystal, mae cyfyngiadau SG ac Ecoleg |

| Amcan NRAP | Yr hyn y maen ei gwmpasu | Camau gweithredu a Chyflawniadau |
|---|---|---|
| | | wedi'u cyhoeddi ar-lein gan ddefnyddio *OpusMap*.<br><br>**Gwaith Sy'n Mynd Rhagddo a Gwaith yn y Dyfodol**<br>• Diweddariadau i dudalennau gwe bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol. Ystyried diweddaru Asesiad Mannau Agored Torfaen yn 2026. |
| **2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well.** | Rhywogaethau/cynefinoedd S7, safleoedd dynodedig, rheoli safleoedd, rheolaeth gadarnhaol ar gyfer nodweddion sydd o flaenoriaeth. | **Rheoli Cynefinoedd a Safleoedd**<br>• Comisiynwyd cynlluniau rheoli newydd ar gyfer pob GNL; dynodi GNL newydd.<br>• Cynlluniau Rheoli Coetiroedd (yn cynnwys SSSI Blorens); prynu Coetir Coed Meyric Moel ger<br>GNL Henllys. Dynodi GNL newydd ym Mlaenserchan.<br>• Creu rhwydwaith pyllau newydd yng Ngwarchodfa Natur Leol Llynnoedd Garn.<br>• Cychwyn rhaglen bori er cadwraeth.<br><br>**Cadwraeth Rhywogaethau a Chynefinoedd**<br>• Adolygiad o feini prawf SINC wedi'i gwblhau.<br>• Parhau â'r camau i wella dulliau rheoli ymylon ffyrdd/glaswelltiroedd ar gyfer bioamrywiaeth<br>• Cymeradwywyd cynnig "Priffyrdd Draenogod" (Maw 2022) i gefnogi rhywogaethau Adran 7,<br>parhau.<br>• System mapio INNS; gwyfynod azolla i reoli rhedyn dŵr ymledol, parhaus.<br><br>**Addysg**<br><br>**Cyflawni Gwelliannau i Fioamrywiaeth trwy Brosiectau Ailddatblygu Ysgolion**<br>• Mae rhaglen i ddatblygu caeau 3G newydd wedi ymgorffori gwelliannau sylweddol yn nhermau bioamrywiaeth, gan gynnwys gwestai chwilod, ymestyn gwrychoedd a |

| Amcan NRAP | Yr hyn y maen ei gwmpasu | Camau gweithredu a Chyflawniadau |
|---|---|---|
| | | phlannu blodau gwyllt brodorol yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw (2025).<br>• Yn Crownbridge (2024), mae mynd ati i blannu mewn ffordd strwythurol amrywiol, gan gynnwys coed, glaswellt, llwyni ac ardaloedd blodau gwyllt, wedi disodli glaswelltir a oedd yn unffurf o'r blaen, ac mae bellach yn cynnwys gwestai chwilod ychwanegol a llwyni a blannwyd y flwyddyn flaenorol.<br>• Mae Ysgol Gynradd Maendy, sy'n Ysgol Sero Net (a agorwyd yn 2024) yn cynnwys blychau / briciau ystlumod ac adar, gerddi glaw a phlanhigion amrywiol ar draws safle a oedd gynt yn gyfres o arwynebau caled a phorfa byr.<br>•Aethpwyd ati i gynnwys nodweddion bioamrywiaeth ar brosiectau cyfalaf a chynnal a chadw llai, gyda dylunwyr y safle yn ymgorffori cyfleoedd ecolegol yn gynyddol yn y camau dylunio cynnar.<br><br>**Cyflawni Canlyniadau Bioamrywiaeth drwy Ymrwymiadau Gwerth cymdeithasol y Gwasanaeth Gwastraff**<br>• Cynnwys gofynion gwerth cymdeithasol sy'n gadarnhaol i fioamrywiaeth mewn contractau gwastraff, a wnaeth arwain at:<br>– adeiladu dau westy chwilod y flwyddyn;<br>– gosod pum bocs adar bob blwyddyn;<br>–plannu blodau gwyllt brodorol ar hyd ffiniau'r safle;<br>– rhoi 20 o goed ffrwythau y flwyddyn i ysgolion a rhandiroedd lleol.<br>Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn cefnogi pryfed sy'n peillio, yn gwella cyfleoedd i ddarparu cynefinoedd lleol ac yn annog mentrau tyfu bwyd cymunedol. |
| **3. Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy** | Adfer/creu cynefinoedd, cysylltedd, gwytnwch | **Rheoli Cynefinoedd a Safleoedd**<br>• Rhwydwaith pyllau yng Ngwarchodfa Natur Leol Llynnoedd Garn (cynefin dyfrol |

| Amcan NRAP | Yr hyn y maen ei gwmpasu | Camau gweithredu a Chyflawniadau |
|---|---|---|
| **gwydn drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd.** | hinsawdd, mawndiroedd, pyllau, perllannau, coed. | newydd).<br>• Cynllun peilot i asesu safleoedd pori sy'n eiddo i'r cyngor, o ran bioamrywiaeth, storio carbon a gwytnwch yr hinsawdd.<br>Dynodi GNL ym Mlaenserchan.<br><br>**Addysg: Integreiddio SDCau a Seilwaith Gwyrdd sy'n Wydn i'r Hinsawdd, ar Safleoedd Ysgol**<br>• Plannu gerddi glaw SDCau helaeth a phantiau yn natblygiadau Llantarnam (2025), Ysgol Abersychan (2025) ac Ysgol Gymraeg Gwynllyw (2022), gan gefnogi mesurau draenio naturiol, creu cynefinoedd i bryfed sy'n peillio a gwella cydnerthedd safleoedd.<br>• Mae camau i uwchraddio safleoedd ysgol bellach yn ymgorffori plannu strwythurol cymysg fel mater o drefn, yn cynnwys coed, llwyni, glaswellt a dolydd blodau gwyllt - i ddisodli ardaloedd glaswelltog a oedd yn unffurf o'r blaen, a gwella cysylltedd ecolegol.<br>• Mae prosiectau ysgolion Sero Net yn Ysgol Crownbridge ac Ysgol Gynradd Maendy yn blaenoriaethu atebion sy'n seiliedig ar natur, gan ymgorffori pantiau, gerddi glaw a chynlluniau plannu amrywiol fel elfennau craidd cynlluniau carbon isel.<br>• Mae prosiectau cyfalaf addysg yn cymhwyso egwyddorion dylunio gwydn ecosystemau yn fwyfwy cynnar, gyda dylunwyr yn nodi cyfleoedd i greu cynefinoedd a chreu gwelliannau ecolegol.<br><br>**Gwella Cydnerthedd Ecosystemau trwy Ddylunio Gwasanaethau Cynaliadwy**<br>• Creu a gwella cynefinoedd trwy gamau gweithredu gwerth cymdeithasol contractwyr, gan gynnwys sefydlu dolydd blodau gwyllt, gosod bocsys adar a gwestai chwilod.<br>• Ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol mewn prosesau dylunio a chaffael |

| Amcan NRAP | Yr hyn y maen ei gwmpasu | Camau gweithredu a Chyflawniadau |
|---|---|---|
| | | gwasanaethau-er enghraifft, mae achos busnes yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff bellach yn mynnu bod darpar gyflenwyr yn dangos tystiolaeth o fioamrywiaeth a chynaliadwyedd.<br><br>**Seilwaith Gwyrdd a Choed**<br>• Strategaeth a Chynllun Gweithredu Coed Torfaen (2021–2031); Strategaeth a Chynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd (Rhagfyr 2019), y ddau yn mynd rhagddynt.<br>• Diweddaru'r GIS mewnol i gynnwys haenau SG a choridorau ecolegol.<br>• Plannwyd 21,875 o goed ers 2022/23 (gan gynnwys 9,700 yn 2024/25).<br>• Perllannau newydd ar sawl safle (e.e. Parc Brooklands, Llyn Cychod Cwmbrân, Pontnewydd, Gardd Flodau Cae Derw, Llantarnam, Eglwys y Drindod Sanctaidd).<br><br>**Cyflawni Prosiectau a Chyllid**<br>• Sicrhawyd Cronfa Adfer Mawndir ar gyfer adfer ucheldiroedd 2025/26.<br>• Prosiectau ENRaW: Grid Gwyrdd Gwent Fwyaf a Gwent Gwydn (canlyniadau adfer/cysylltedd).<br>• ~£1.3m trwy fenter Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i gefnogi creu/adfer.<br><br>**Gwaith Sy'n Mynd Rhagddo a Gwaith yn y Dyfodol**<br>• Cynlluniau rheoli'r gamlas i wella'r coridor ecolegol strategol.<br>• Cymryd rhan yn Ucheldiroedd Gwydn De Ddwyrain Cymru (adfer mawndiroedd). |
| **4. Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.** | Mynd i'r afael â bygythiadau fel INNS, cynefinoedd darniog, llygredd, rheoli amhriodol; integreiddio bioamrywiaeth mewn polisïau a mesurau dylunio. | **Cadwraeth Rhywogaethau a Chynefinoedd**<br>• Mapio INNS a rheoli biolegol (gwyfynod azolla) ar gyfer rhedyn dŵr.<br>• Gwella mesurau rheoli ymylon / glaswelltir i leihau pwysau a chefnogi rhywogaethau.<br><br>**Adrodd a Chynllunio Strategol**<br>• Cyfres CCA (e.e., Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau; Seilwaith Gwyrdd; |

| Amcan NRAP | Yr hyn y maen ei gwmpasu | Camau gweithredu a Chyflawniadau |
| --- | --- | --- |
| | | lleoliadau cynaliadwy; Rhwymedigaethau Cynllunio) er mwyn osgoi/lleihau effeithiau gweddilliol drwy'r dull fesul cam.<br>• Integreiddio Dyletswydd A6 i'r Strategaeth Rheoli Asedau ddrafft.<br><br>**Lleihau pwysau sy'n gysylltiedig â gwastraff**<br><br>**Lleihau pwysau amgylcheddol trwy atal gwastraff a chylchu**<br>• Mae camau gweithredu ar draws y gwasanaeth gwastraff yn lleihau llygredd, allyriadau carbon a cholli adnoddau drwy flaenoriaethu ailddefnyddio, ailgylchu a llif adnoddau cylchol.<br>• Ymhlith y mentrau adfer adnoddau dan arweiniad contractwyr oedd camu i mewn ac ailddosbarthu dros 500 o botiau planhigion blynyddol (gwerth tua £750 dros dymor y contract), cefnogi prosiectau tyfu cymunedol a lleihau gwastraff plastig.<br><br>**Gwaith Sy'n Mynd Rhagddo a Gwaith yn y Dyfodol**<br>• Gwneud y mwyaf o SG a bioamrywiaeth yng nghanol trefi (Trefi a Dinasoedd Natur). |
| **5 Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro.** | Data, monitro, mapio, hyfforddiant i ddefnyddio tystiolaeth (e.e., haenau SG, adolygiad SINC, adrodd Adran 6). | **Adrodd a Chynllunio Strategol**<br>• Cyflwyno Adroddiadau Dyletswydd Adran 6 (2019 a 2022); y nesaf yn 2025.<br>• Paratoi'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (2023–2030).<br>**Gwella Tystiolaeth a Monitro yn y maes Rheoli Gwastraff ac Adnoddau**<br>• Monitro perfformiad gwastraff trwy lif data Gwastraff, gan adrodd ar berfformiad mewn modd tryloyw a hygyrch i'r cyhoedd. •<br>Monitro cyflawniadau contractwyr bob chwarter trwy fframwaith Gwerth Cymdeithasol TOMS a phrosesau adolygu contractau strwythuredig, gan sicrhau atebolrwydd am gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth. |

| Amcan NRAP | Yr hyn y maen ei gwmpasu | Camau gweithredu a Chyflawniadau |
|---|---|---|
| | | **Cadwraeth Rhywogaethau a Chynefinoedd**<br>• Adolygu meini prawf SINC (diweddaru'r sylfaen dystiolaeth).<br><br>**Seilwaith Gwyrdd a Choed**<br>• Diweddaru system GIS mewnol i gynnwys haenau a choridorau SG (tystiolaeth ar gyfer penderfyniadau).<br>Yn ogystal, mae cyfyngiadau SG ac Ecoleg wedi'u cyhoeddi ar-lein at ddibenion cynllunio gan ddefnyddio OpusMap.<br>• Olrhain cyfansymiau plannu coed (21,875 ers 2022/23, gan gynnwys 9,700 yn 2024/25).<br><br>**Ymgysylltu â'r Gymuned ac Addysg**<br>• Hyfforddiant ac e-ddysgu pwrpasol i staff (adeiladu llythrennedd tystiolaeth fewnol). |
| **6. Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.** | Llywodraethu, capasiti, partneriaethau a chyllid i allu cyflawni'r ddyletswydd a'r cynllun. | **Adrodd a Chynllunio Strategol**<br>• Integreiddio'r Ddyletswydd A6 yn y Strategaeth Rheoli Asedau ddrafft (bachyn llywodraethu).<br>• Cyhoeddiadau CCA i ddarparu fframwaith llywodraethu ar gyfer penderfyniadau cyson.<br><br>**Cyflawni Prosiectau a Chyllid**<br>• Cyflawnwyd dau brosiect ENRaW (Gwent Fwyaf Gwydn; Grid Gwyrdd Gwent).<br>• £808,000 ar gyfer trefi a Dinasoedd Natur, Cronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer "Planed Iach, Pobl Iach".<br>• Sicrhau Cronfa Adfer Mawndir (2025/26).<br>• ~Cyllid gwerth £1.3m - Lleoedd Lleol ar gyfer Natur hyd at y f/a 2025/26 |

| Amcan NRAP | Yr hyn y maen ei gwmpasu | Camau gweithredu a Chyflawniadau |
|---|---|---|
| | | **Atgyfnerthu Dulliau Llywodraethu, Gallu a Chyflawni drwy Bartneriaeth**<br>• Ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth yn y mesurau rheoli gwasanaethau gwastraff, prosesau caffael a goruchwylio contractau.• Sicrhau mynediad at arbenigedd ecolegol yn fewnol neu'n allanol i gefnogi cydymffurfiaeth a datblygu prosiectau.• Mae gweithio mewn partneriaeth gref gyda Circulate, Wastesavers, Caffi Trwsio Cymru a chynghorau lleol yn gwella cyflawni drwy wirfoddoli, datblygu sgiliau a gweithredu amgylcheddol yn y gymuned.<br><br>**Gwella Llywodraethu a Chymorth ar gyfer Dyletswydd A6 ar draws Cynghorau**<br>• Mae cyfrifoldebau bioamrywiaeth yn cael eu hatgyfnerthu ar draws prosesau llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys sicrwydd prosiect y SRhP, strwythurau adrodd pwyllgorau a systemau i ymgysylltu â staff.<br>• Mae'r broses asesu effaith integredig a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau bod dyletswyddau bioamrywiaeth yn cael eu hystyried a'u defnyddio fel tystiolaeth yn benodol wrth ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau ffurfiol.<br>• Mae hyrwyddo gwirfoddoli ymysg staff sy'n gysylltiedig â rheoli cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth yn cefnogi diwylliant sefydliadol newid ac yn rhoi mwy o allu i gynnal gweithgareddau cymunedol sy'n gadarnhaol o ran natur.<br><br>**Cydnabyddiaeth a Gwobrau**<br>• Gwobr Ddinesig (25 mlynedd o BNL yn Nhorfaen) a sawl gwobr Baner Werdd—sy'n dangos hygrededd o ran llywodraethu a safonau cyflawni.<br><br>**Gwaith Sy'n Mynd Rhagddo a Gwaith yn y Dyfodol** |

| Amcan NRAP | Yr hyn y maen ei gwmpasu | Camau gweithredu a Chyflawniadau |
|---|---|---|
| | | • Bioamrywiaeth fel thema allweddol mewn cynlluniau creu lleoedd; cynlluniau rheoli'r gamlas; cyfranogiad yn Ucheldiroedd Cydnerth De Ddwyrain Cymru—cyflawni mewn modd strwythuredig, sy'n seiliedig ar bartneriaeth. |

**5.0 Arolygiad o Ddyletswydd A6 – Argymhellion ar gyfer rheoli a gwella perfformiad.**

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r adran hon yn nodi rhai materion allweddol ynglŷn â gweithredu'r ddyletswydd Adran 6 o fewn y Cyngor, ac mae'n amlinellu'r mesurau sydd eu hangen i gyrfau a gwreiddio'r ddyletswydd ymhellach ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Mae hefyd cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed ers y cyfnod adrodd blaenorol, yn enwedig wrth hyrwyddo diwylliant sefydliadol a chefnogi newid ymddygiad. Mae'r argymhellion a gyflwynir yn Nhabl 1 wedi'u hymgorffori yn y diweddariad sydd ar ddod o Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Torfaen (BERP) er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn barhaus â Dyletswydd Adran 6, a'i gyflawni'n effeithiol.

| Problem a nodwyd (2023–2025) | Dull Gweithredu ar gyfer Gwella (Wedi'i ddiweddaru ar gyfer Adroddiad LlC 2025) | Adran Sy'n Arwain | Amserlen (Arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth staff a dealltwriaeth o'r ddyletswydd A6 ar draws meysydd gwasanaeth yn parhau i amrywio. | Cyflwyno rhaglen dreigl o hyfforddiant bioamrywiaeth ar draws y gwasanaeth a hyfforddiant Dyletswydd A6, i integreiddio: • modiwlau e-ddysgu Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi'u diweddaru • hyfforddiant pwrpasol (e.e. rhywogaethau a warchodir, SG, budd net bioamrywiaeth) • cynnwys sefydlu wedi'i dargedu ar gyfer staff a rheolwyr newydd. | Yr Amgylchedd (Tîm yr Amgylchedd Naturiol) gydag AD/Datblygu Sefydliadol | 2025–27 |
| Diffyg gweithdrefn gyson i fonitro gwelliannau i fioamrywiaeth trwy gynllunio. | Sefydlu system fonitro strwythuredig ar gyfer amodau i wella bioamrywiaeth a rhwymedigaethau cynllunio, paratoi data cryno bob blwyddyn i lywio rheoli perfformiad ac adolygu'r polisi yn y dyfodol. Mae hyn yn amodol ar adnoddau a chapasiti o fewn y Tîm Cynllunio a Datblygu – ar hyn o bryd mae trafodaethau wedi dod i'r casgliad nad yw'n bosibl nac yn realistig i'w gyflawni. Bydd angen cynnal trafodaeth bellach os bydd amgylchiadau'n newid o fewn y Tîm Cynllunio a Datblygu. | Cynllunio (Rheoli Datblygu a Pholisi Cynllunio) | 2025 ymlaen |
| Angen cynnal cyllid allanol i gyflawni prosiectau craidd o ran bioamrywiaeth a SG. | Cynnal sganio cyllid rhagweithiol a chynigion cydweithredol (e.e. NLHF, rhaglenni LlC, ENRaW), gan flaenoriaethu camau sy'n cefnogi'r Argyfwng Hinsawdd a Natur a chyflawni BERP. | Polisi'r Amgylchedd; Cyllid; Adfywio | 2025–28 |
| Ystyriaeth anghyson o Ddyletswydd A6 ym mhrosesau penderfynu | Archwilio adroddiadau pwyllgor a thempledi corfforaethol yn flynyddol i sicrhau eu bod yn | Uned Cynorthwyo'r Gwasanaethau | Blynyddol (dechrau 2025) |

| Problem a nodwyd (2023–2025) | Dull Gweithredu ar gyfer Gwella (Wedi'i ddiweddaru ar gyfer Adroddiad LlC 2025) | Adran Sy'n Arwain | Amserlen (Arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| corfforaethol (e.e., adroddiadau pwyllgorau, datblygu strategaethau). | cydymffurfio ag A6, i'w ddilyn gan adborth i awduron yr adroddiadau. Mireinio canllawiau. | Cyhoeddus (UCGC) gyda Thîm yr Amgylchedd Naturiol | |
| Tanddefnyddio tystiolaeth ecolegol, haenau data SG a gwybodaeth SINC/A7 ar draws meysydd gwasanaeth. | Ehangu mynediad i swyddogion, a'u hyfforddiant ar haenau GIS amgylchedd naturiol, data Asesu SG, a mapiau tystiolaeth; mynnu bod yr haenau hyn yn cael eu defnyddio yn ystod cyfnodau creu gweledigaeth prosiectau drwy brosesau'r SRhP. | Tîm yr Amgylchedd Naturiol; SRhP; Digidol/TGCh | 2025–26 |
| Cyfleoedd i ehangu gwaith rheoli ystâd feddwl y cyngor mewn ffordd sy'n ystyriol o natur, gan wella bioamrywiaeth, storio carbon ac amwynder cyhoeddus. | Ehangu mesurau rheoli glaswelltir dan arweiniad bioamrywiaeth a'r camau cysylltiedig i greu cynefinoedd (torri a chasglu, creu dolydd, pori sy'n ystyried cadwraeth), gyda chefnogaeth mesurau monitro blynyddol a deunyddiau cyfathrebu cyhoeddus. | Gweithrediadau Strydlun gyda'r Tîm Amgylchedd Naturiol | 2025–30 |
| Anhawster cael gwybodaeth gyson , amserol ar draws yr adrannau, er mwyn adrodd ar A6, oherwydd dealltwriaeth gyfyngedig o ba mor bwysig yw'r adroddiad, cyfyngiadau amser, a phwysau llwyth gwaith ar draws meysydd gwasanaeth. | Datblygu proses casglu gwybodaeth fwy effeithlon drwy: • godi ymwybyddiaeth yr adrannau ynghylch diben a phwysigrwydd yr adroddiad A6 yn statudol drwy dargedu'r cyfathrebu a briffio rheolwyr; • nodi 'Hyrwyddwyr yr Amgylchedd' A6 ym mhob adran i gydlynu adroddiadau; • archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu templed mewnol ar | Tîm yr Amgylchedd Naturiol gydag Arweinwyr Adrannol / Perfformiad Corfforaethol | 2026-2028 – cyn yr adroddiad A6 nesaf |

| Problem a nodwyd (2023–2025) | Dull Gweithredu ar gyfer Gwella (Wedi'i ddiweddaru ar gyfer Adroddiad LlC 2025) | Adran Sy'n Arwain | Amserlen (Arfaethedig) |
|---|---|---|---|
| | gyfer adroddiad bioamrywiaeth blynyddol/A6 i gasglu camau gweithredu allweddol a thystiolaeth bob blwyddyn (lleihau pwysau adeg y pwynt adrodd 3-blynedd); a • treialu system lle gellir crynhoi crynodebau blynyddol yn awtomatig yn yr adroddiad 3 blynedd statudol. | | |

# Casgliad

Mae'r materion a'r camau gwella cyfatebol a nodwyd drwy gyfnod adrodd 2023-2025 yn dangos y cynnydd parhaus a wnaed gan Gyngor Torfaen i ymgorffori dyletswydd Adran 6 ar draws ei swyddogaethau. Mae hefyd yn tynnu sylw at y meysydd lle mae angen ffocws ychwanegol i atgyfnerthu'r sefydliad i gydymffurfio a chyflawni. Mae'r adborth gan y meysydd gwasanaeth yn dangos cynnydd yn y newid diwylliannol o ran cydnabod gwerth bioamrywiaeth a cydnerthedd ecosystemau, gyda chefnogaeth strategaethau newydd, tystiolaeth well, partneriaethau ar raddfa eang ac arferion i reoli'r tir yn well. Fodd bynnag, mae'r un mor amlwg bod angen ymdrech barhaus i sicrhau bod y cam i ystyried bioamrywiaeth yn dod yn gwbl arferol o fewn yr holl brosesau penderfynu, prosesau gweithredol a gweithgareddau wrth gynllunio prosiectau.

Mae'r camau gwella a ddiweddarwyd ac sydd wedi eu nodi yn y tabl yn cynnig fframwaith cryfach, wedi ei dargedu'n fwy ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys meithrin dealltwriaeth gyson o'r ddyletswydd A6 ymhlith y staff, ffurfio tîm o hyrwyddwyr amgylcheddol ar draws y timau a'r adrannau ehangach yn y cyngor, ehangu'r defnydd o dystiolaeth amgylcheddol naturiol, gwella prosesau llywodraethu, a gwella mesurau monitro canlyniadau bioamrywiaeth y ceir hyd iddynt trwy gynllunio. Mae'r camau gweithredu hyn hefyd yn adlewyrchu'r angen i gynnal momentwm o ran rheoli tir mewn ffordd sy'n ystyriol o natur, ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd i gyrraedd targedau 30x30, a sicrhau cyllid parhaus i ddarparu mentrau i greu cynefinoedd, eu hadfer ac adfer natur ehangach.

Gyda'i gilydd, mae'r camau gweithredu yn creu sylfaen fwy cadarn i weithredu'r ddyletswydd A6 ar draws yr awdurdod lleol. Maent yn atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i gyflawni gwelliannau mesuradwy ar gyfer bioamrywiaeth, gwella cydnerthedd ecosystemau a chyfrannu at uchelgeisiau cenedlaethol, gan gynnwys targed Llywodraeth Cymru i ddiogelu ac adfer natur erbyn 2030. Bydd parhau i weithio mewn partneriaeth, atgyfnerthu trefniadau llywodraethu a chadw ffocws ar ddysgu sefydliadol yn hanfodol i wireddu'r amcanion hyn, a sicrhau bod y Cyngor yn parhau i chwarae rôl flaenllaw wrth fynd ati i adfer natur yn Nhorfaen.

# Atodiad 1. Lluniau a Dolenni i newyddion/storïau




**Cynulliad Hinsawdd a Natur Torfaen:**



**Gosod gwrychoedd ar warchodfeydd Natur Lleol  CBST**





**Celf Gardd Gloÿnnod Byw ym Mharc Pontnewynydd:**





**Plannu Bylbiau Blodau Gwyllt:**











## Planed Iach Pobl Iach, Prosiect Trefi a Dinasoedd Natur

Veronika Brannovic · Follow
Admin · Top contributor · 17 January at 20:13 ·

Fancy getting your hands dirty helping to develop a new wetland area in Blaenavon? Staff from the TCBC Healthy Planet, Healthy People project will be hosting a volunteer morning at Elgam Ravine on Friday 30th January, starting at 10 am. First task is to reduce the amount of scrub and do some coppicing of willows with hand tools. Come along and do as much or as little as you want - 'every little helps'. Contact veronika.brannovic@torfaen.gov.uk for more information. Torfaen






Torfaen
30 January at 15:30 ·

Work to create a new wetland to help tackle flooding in the north of the borough is underway.

Today, local MP Nick Thomas-Symmonds visited the Elgam Ravine, in Blaenavon, to find out more about the project as part of the council's new Healthy Planet, Healthy People programme.

Read more: https://orlo.uk/5xHJd

# Atodiad 2

## Asesiad Effaith a Rhestr Wirio Bioamrywiaeth ar gyfer proses y SRhP

**Cefndir**

- Mae gan **bob** Awdurdod Lleol **ddyletswydd gyfreithiol** i ystyried bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau.

- Yng **Nghymru**, mae **rhwymedigaeth gyfreithiol** ar Awdurdodau Lleol i ystyried bioamrywiaeth a cydnerthedd ecosystemau yn eu swyddogaethau. Cyfeirir at hon fel y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, a sefydlwyd o dan **Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel ein Dyletswydd Adran 6 (A6))**.

- Mae'r Ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ganfod ffyrdd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau o fewn eu gweithgareddau, cynlluniau, prosiectau a pholisïau o ddydd i ddydd.

**Agweddau allweddol ar Ddyletswydd Adran 6:**

| | |
|---|---|
| **Integreiddio** | Rhaid i awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth yn eu swyddogaethau craidd a'u prosesau gwneud penderfyniadau. |
| **Cymesuroldeb** | Dylai'r camau a gymerir i gyflawni'r ddyletswydd fod yn gymesur â swyddogaeth a maint penodol yr awdurdod. |
| **Cydnerthedd Ecosystemau** | Mae'r Ddyletswydd yn pwysleisio hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau ochr yn ochr â gwella bioamrywiaeth. |
| **Cynllunio Gweithredu** | Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus greu a chyhoeddi cynlluniau sy'n amlinellu sut y byddant yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd (Yn Nhorfaen dyma ein Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (BERP). |
| **Monitro ac Adrodd** | Rhaid i awdurdodau cyhoeddus fonitro eu cynnydd yn rheolaidd ac adrodd ar eu camau gweithredu i gyflawni'r Ddyletswydd A6. Mae Adroddiad Adran 6 yn cael ei baratoi i adrodd ar y cynnydd hwn, a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd. |

**Enghreifftiau o’r Camau Gweithredu:**

| Creu cynefinoedd a'u rheoli | Arferion cynaliadwy | Caffael | Ennyn y Gymuned | Rheoli Tir |
|---|---|---|---|---|
| Sefydlu cynefinoedd bywyd gwyllt trwy greu cynefinoedd naturiol, adfer cynefinoedd, plannu rhywogaethau brodorol, creu cyfleoedd nythu/bwydo a mannau gwyrdd. | Gweithredu systemau draenio cynaliadwy, lleihau'r defnydd o ynni, dal carbon, hyrwyddo ailgylchu, lleihau llygredd golau a sŵn. | Cael hyd i ddeunyddiau a gwasanaethau gan gyflenwyr cynaliadwy a chyflenwyr lleol. | Rhoi mentrau bioamrywiaeth ar waith mewn cymunedau yn ogystal â gweithgareddau gwirfoddoli a phrosiectau/digwyddiadau gwyddoniaeth i ddinasyddion | Rhoi arferion rheoli tir ar waith, mewn ffordd sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Plannu coed a gwrychoedd brodorol, creu/adfer cynefinoedd dolydd/gwlyptiroedd, ennyn pori er cadwraeth, defnyddio seilwaith gwyrdd i reoli dŵr, cysylltu cynefinoedd tameidiog. |

| **Mae pob cynefin a rhywogaeth a warchodir yn cael lefelau gwahanol o warchodaeth o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:** | **Polisïau deddfwriaethol lleol eraill sy’n berthnasol:** |
|---|---|
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) | Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Torfaen – cael ei adolygu ar hyn o bryd. |
| Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) | Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur Torfaen |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016<br>https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents<br>https://www.gov.wales/environment-wales-act-2016-factsheets | Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Torfaen a Blaenau Gwent |
| Cymru’r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 | Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Torfaen |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Strategaeth a Chynllun Gweithredu Coed Torfaen |
| Polisi Cynllunio Cymru 12 (yn enwedig Pennod 6) | |

# Rhestr Wirio Bioamrywiaeth ar gyfer Rhywogaethau a Chynefinoedd

**Pwrpas y rhestr wirio**: Penderfynu a yw cynefinoedd a/neu rywogaethau sy'n cael eu gwarchod, o fewn / yn agos at ardal ddatblygu /prosiect arfaethedig.

**Wrth lenwi'r rhestr wirio:** mae'n cynnig y manteision canlynol o fewn proses y SRhP:

| | |
|---|---|
| **Adnabod yn gynnar** | Wrth lenwi'r rhestr wirio ar bwynt cychwyn y prosiect bydd llai o botensial i brosiectau/datblygiadau effeithio ar fioamrywiaeth. |
| **Lliniaru Rhagweithiol** | Os oes angen caniatâd cynllunio, bydd y rhestr wirio yn caniatáu i reolwyr prosiectau nodi unrhyw gyfyngiadau ecolegol posibl, er mwyn arbed amser ac adnoddau. |
| **Casglu Gwybodaeth** | Mae casglu gwybodaeth yn ffordd strwythuredig o asesu effeithiau posibl a phenderfynu a oes angen arolygon arbenigol pellach - ee ar gyfer rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod (ystlumod, dyfrgwn, y fadfall ddŵr cribog ac ati) neu arfarniad ecolegol rhagarweiniol. |
| **Lleihau Oedi** | Trwy ganfod problemau posibl yn gynnar, mae'r rhestr wirio yn helpu i osgoi oedi yn ystod amserlen y prosiect / proses gynllunio. |
| **Sicrhau cydymffurfiaeth** | Wrth sicrhau cydymffurfiaeth mae'n cyfrannu ag at fodloni rheoliadau a gofynion statudol yr ALl o ran diogelu bioamrywiaeth – Dyletswydd Adran 6. |
| **Hyrwyddo datblygu cynaliadwy** | Wrth annog cynllunio ac arferion rheoli datblygu/prosiectau cyfrifol, mae'r rhestr wirio yn cyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy. |

**Llenwch Tabl 1 ar y dudalen nesaf:**

| **Tabl 1: Rhestr wirio Safleoedd a Chynefinoedd**<br>**Cwestiwn** | **Ticiwch fel y bo'n briodol** | |
|---|---|---|
| | **Ydy** | **Nac ydy** |
| A yw'r gweithgaredd a fwriedir, o fewn 10km i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)? | | |
| Ydy'r gweithgaredd a fwriedir, ar, neu o fewn 5km i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)? | | |
| Ydy'r gweithgaredd a fwriedir, ar, neu o fewn 1km i Warchodfa Natur Leol (GNL)? | | |
| Ydy'r gweithgaredd a fwriedir, ar, neu o fewn 1km i Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC)? | | |

** Os ateboch **ydy i unrhyw rhai o'r uchod**, ewch ymlaen i **Dabl 2: Gwerthuso Safleoedd a Chynefinoedd** ac yna ymlaen i Dabl 3 fel y bo'n briodol. ** Os ateboch **na i bob un o'r uchod**, ewch ymlaen yn syth i Dabl 3.

**Tabl 2: Gwerthuso Safleoedd a Chynefinoedd**

| **Safle neu gynefin** | A yw'n rhesymol debygol y bydd y datblygiad yn effeithio (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) ar safle neu gynefin yn y safle neu'r golofn gynefin cyn cymhwyso mesurau lliniaru? | | Os ydych wedi ateb 'ydy', rhowch enw'r safle (oedd) a/neu'r cynefin (oedd) a rhowch grynodeb o unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol a allai godi yn ystod y gwaith.<br><br>Os ydych wedi ateb 'nac ydy' rhowch ddatganiad cryno i gefnogi eich ateb. |
|---|---|---|---|
| | **Ydy** | **Nac ydy** | |
| ACA/AGA | | | |
| SoDdGA | | | |
| Adran 7:Cynefinoedd o Flaenoriaeth *(gweler atodiad)* | | | |
| Coetir a/neu goetir hynafol | | | |
| Gwarchodfa Natur Leol | | | |
| SINC | | | |

**Tabl 3: Rhywogaethau Gwarchodedig a Rhywogaethau o Flaenoriaeth o'r Pwysigrwydd Pennaf**

**Adolygwch y cwestiynau isod,** lle atebir 'Ydy', bydd y rhes gyfatebol yn y tabl isod yn nodi'r tebygolrwydd rhesymol bod rywogaeth benodol yn bresennol, ac y gallai fod angen arolygon pellach ar eu cyfer.

| Cyfeiriad | Safle neu gynefin | Ydy | Na |
|---|---|---|---|
| Strwythurau | A yw'r prosiect/gweithgaredd yn cynnwys addasu/trawsnewid/dymchwel neu dynnu unrhyw rhai o'r nodweddion neu fathau canlynol o adeiladau:<br>- Gofod llofft<br>- Bylchau neu graciau yn y to<br>- Estyllod dŵr<br>- Teils sy'n hongian<br>- Talcen<br>- To llechi<br>- To teils clai ar oleddf<br>- Cladin pren<br>- Llystyfiant trwchus sy'n dringo<br>- Strwythurau tanddaearol gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i seleri, twneli, mwyngloddiau, odynau, tai iâ, llochesi cyrch awyr, strwythurau pontydd, traphontydd dŵr a thraphontydd<br>- Adeiladau amaethyddol yn arbennig, ond nid yn unig y rhai o adeiladu brics, cerrig neu bren traddodiadol.<br>- Adeiladau neu adeiladwaith cyn yr 20hed ganrif neu o ddechrau'r 20fed ganrif | | |
| Dŵr | A fydd y prosiect neu'r gweithgaredd yn digwydd o fewn ardal neu'n gyfagos i ardal gyda llyn, afon, camlas, nant, ffos, cors neu wely cyrs? | | |
| Goleuadau | A yw'r prosiect neu'r gweithgaredd yn cynnwys goleuadau newydd ar adeilad/strwythur gyda nodweddion sy'n addas ar gyfer ystlumod neu dylluan wen; neu oleuo man gwyrdd, o fewn 50m i goridor tywyll, coetir, dŵr, gwrych neu linell goed? | | |
| Coetir | A fydd y prosiect neu'r gweithgaredd yn digwydd o fewn 200m o goetir neu brysgwydd, neu a fydd yn ffinio â gwrychoedd brodorol yn bennaf neu'n agos atynt? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Coeden | A fydd y prosiect neu'r gweithgaredd yn digwydd o fewn planhigfa goed/coetir neu'n agos, ati, yn cynnwys coed conwydd? | | |
| **Cyfeiriad** | **Safle neu gynefin** | **Bydd** | **Na fydd** |
| Hynafol | A fydd y prosiect neu'r gweithgaredd yn digwydd mewn ardal sy'n cynnwys coed sy'n hŷn na 100 mlynedd, gyda thyllau amlwg, craciau, ceudodau, pydredd, rhisgl rhydd, tyllau cnocell y coed, neu goed sydd yn fwy nag 1m o amgylch y ganol, ar uchder y frest? | | |
| Craig | A fydd y prosiect neu'r gweithgaredd yn golygu aflonyddu, addasu, dymchwel neu adeiladu ar safle/mewn pyllau graean/chwareli/wynebau clogwyni naturiol/brigiadau creigiau? | | |
| Pwll | A fydd y prosiect/gweithgaredd yn digwydd o fewn 100m i bwll neu gorff dŵr arall, sydd naill ai'n barhaol neu'n fyrhoedlog (yn sychu'n dymhorol)? | | |
| Glaswelltir | A fydd y prosiect neu'r gweithgaredd yn digwydd mewn ardal o laswelltir neu'n agos ati, ee dolydd, parcdir neu borfa? | | |
| Tir llwyd | A fydd y prosiect neu'r gweithgaredd yn digwydd ar dir llwyd, tir diffaith neu dir reilffordd a ddatblygwyd yn flaenorol? | | |
| Gardd | A fydd y prosiect/gweithgaredd yn cynnwys addasu, aflonyddu neu gael gwared ar erddi aeddfed/sydd wedi gordyfu, glaswelltir garw, prysgwydd neu randiroedd ? | | |
| Compost | A fydd y prosiect neu'r gweithgaredd yn cynnwys tynnu tomen gompost? | | |
| Âr | A fydd y prosiect neu'r gweithgaredd yn cynnwys addasu, aflonyddu neu gael gwared ar gae(au) âr sydd â gwrych (oedd) a/neu ymyl glaswellt? | | |
| Rhostir | A fydd y prosiect/gweithgaredd yn digwydd o fewn neu agos at gynefin rhostir? | | |

**Tabl 4 Y tebygolrwydd rhesymol bod rywogaeth benodol yn bresennol, ac y gallai fod angen arolygon pellach ar eu cyfer.**

| Cyfeiriad | Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop | | | | Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol | | | | | | | | | Rhywogaethau o Flaenoriaeth sydd o'r Pwysigrwydd Pennaf yng Nghymru dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ystlumod | Pathewod | Madfallod Dŵr Cribog | Dyfrgwn | Moch Daear | Tylluanod Gwyn | Adar Bridio | Infertebratau | Cimychiaid Afon | Adar Eraill a Warchodir | Planhigion (yn cynnwys Ffyngau, Rhedyn a Bryoffytau) | Ymlusgiaid/ amffibiaid | Llygod y Dŵr | Adar | Ffyngau | Infertebratau | Mamaliaid | Planhigion (yn cynnwys rhedyn a Bryoffytau |
| Strwythurau | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dŵr | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Golau | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Coetir | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Coeden | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Hynafol | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Craig | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Pwll | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Glaswelltir | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tir llwyd | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gardd | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Compost | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Âr | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Rhostir | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

**Tabl 5: Gwerthuso Rhywogaethau**

| Rhywogaethau (a nodwyd ar ôl cwblhau'r rhestrau gwirio yn y tablau uchod) | A oes *'tebygolrwydd rhesymol'* y bydd y datblygiad yn effeithio ar rywogaeth a restrir uchod, cyn cymhwyso mesurau lliniaru? | | Yn y mannau hynny yr ydych wedi ateb, Oes, enwch y rhywogaeth a chrynhowch unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol a allai ddigwydd yn ystod y gwaith adeiladu neu weithredu.<br>Yna bydd angen i ecolegydd ymgynghorol sydd â chymwysterau priodol, gwblhau arolygon rhywogaethau priodol a rhaid cynnal y rhain yn unol â holl ddeddfwriaeth bioamrywiaeth berthnasol Cymru a Chanllawiau Arfer Da CIEEM.<br><br>Os ateboch Nac oes, rhowch ddatganiad cryno i gefnogi eich ateb. |
|---|---|---|---|
| | **Oes** | **Nac oes** | |
| Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop | | | |
| Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol | | | |
| Rhywogaethau o Flaenoriaeth dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | | | |

**Beth nesaf?**

Os ydych wedi ateb 'ydy/oes' i unrhyw gwestiynau yn y **Tabl Safleoedd a Chynefinoedd** neu’r **Tabl gwerthuso Rhywogaethau uchod,** rhaid i chi baratoi **Datganiad Bioamrywiaeth a Chynllun Lliniaru** sy'n ymgorffori canfyddiadau **Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol (AERh) a/neu unrhyw arolygon ecolegol arbenigol eraill a gynhaliwyd ee ar gyfer rhywogaethau a warchodir.**

Rhaid i'r Datganiad Bioamrywiaeth a'r Cynllun Lliniaru gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Map yn dangos lleoliad unrhyw rywogaeth a warchodir ar y safle neu o fewn 2km i ffin y safle.
- Arolwg Cynefinoedd Cam Un estynedig (rhan o'r AERh) a gafodd ei gwblhau ar yr adeg gywir o'r flwyddyn, yn dangos lleoliad a nifer/maint y cynefinoedd y gallai’r cynigion effeithio arnynt, ynghyd â ynghyd â'r nodweddion sy'n gysylltiedig â rhywogaethau a warchodir neu’r rheini sydd o flaenoriaeth.
- Arolygon rhywogaethau gwarchodedig a/neu’r rhai o flaenoriaeth berthnasol, a gynhelir ar yr adeg gywir o'r flwyddyn, gan gynnwys canlyniadau a dulliau yn unol â Chanllawiau Arfer Da CIEEM.
- Gwerthusiad o'r effeithiau/effeithiau tebygol ar nodweddion bioamrywiaeth sy'n bresennol.
- Ar gyfer pob nodwedd bioamrywiaeth y bydd y prosiect/ gweithgaredd yn debygol o effeithio'n andwyol arno, rhaid i'r Cynllun Lliniaru fanylu:
- Sut y bydd effeithiau'n cael eu hosgoi/lleihau a/neu eu lliniaru.
- Sut y bydd mesurau lliniaru yn cael eu rheoli, sut y cyfeirir adnoddau priodol i sicrhau hynny a sut eir ati i’w monitro wedi hynny.

**Cynigion ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth.** Dan Adran 6, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, fel awdurdod cyhoeddus, mae gennym ddyletswydd nid yn unig i gynnal bioamrywiaeth, ond ei wella, wrth arfer ein swyddogaethau, gan ddarparu elw net ar gyfer bioamrywiaeth. Rhaid i'r holl fesurau i greu neu adfer cynefin arfaethedig fod yn unol â blaenoriaethau cadwraeth leol, yr amcanion a’r camau gweithredu yn y dogfennau canlynol:

- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Leol BG a Thorfaen
- Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Torfaen 2025-2030

- Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur Torfaen.

Os ateboch 'na' i unrhyw gwestiynau yn y **tabl Safleoedd a Chynefinoedd** neu'r **tabl Gwerthuso Rhywogaethau uchod**, dylech lenwi'r rhestr wirio derfynol a'r datganiad isod:

| Cam | Eitem | ✓ | × | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | A oes angen Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol (gan gynnwys chwilio data)neu a oes angen cynnal un? | **Angenrheidiol?** | | Os nad oes angen AERh, a ydych wedi cyflwyno datganiad o gyfiawnhad yng ngholofn 3 yn nhablau 2 a 4 uchod?<br>☐ ydw ☐ nac ydw |
| | | | | |
| | | **Wedi'i Gwblhau?** | | |
| | | | | |
| 2 | Ydych chi wedi cwblhau'r rhestr wirio a'r ffurflen gwerthuso safleoedd a chynefinoedd yn y tablau uchod? | | | |
| 3 | Ydych chi wedi cwblhau'r rhestr wirio rhywogaethau a'r tablau gwerthuso uchod? | | | |
| 4 | Ydych chi wedi cwblhau Datganiad Bioamrywiaeth a Chynllun Lliniaru? | | | |

**Llofnod:** **Tîm/Adran:**


**Dyddiad:**

# Atodiad Asesiad Effaith y SRhP

## Atodiad 1

## Dogfennau Defnyddiol

**Cliciwch ar y lluniau isod i weld y dogfennau perthnasol**










## Atodiad 2 Ystlumod ac Adeiladau

**Gwybodaeth Ddefnyddiol – rhestr o nodweddion ar adeiladau a allai fod yn gartref i ystlumod** **(Cliciwch ar y llun am ragor o wybodaeth)**


Places that bats may use in buildings
1 Barge board
2 Roofing felt
3 Roof joists
4 Ridge tiles
5 Soffit
6 Attic
7 Lead flashing
8 Dormer window
9 Coping stones
10 Gable end
11 Valley
12 Broken tiles
13 Space between downpipe
14 Metal elements on balconies
15 Sash window
16 Loose mortar between bricks
17 Quoins
18 Wood cladding
19 End tiles
20 Fascia board
21 Eaves
22 Guttering
23 Window sill
24 Porch
25 Hanging tiles
26 Cellar
15mm
0
10
20mm
A pipistrelle can use a hole
this size to enter a building


## Atodiad 3

## Ystlumod a Choed (Cliciwch ar y llun i gael fwy o fanylion)




## Atodiad 4

## Effeithiau llygredd golau ar fioamrywiaeth (Cliciwch ar y lluniau i gael fwy o wybodaeth)


Bat Conservation Trust
GUIDANCE NOTE 08/23
BATS AND ARTIFICIAL LIGHTING AT NIGHT
Brown long-eared bat. Image credit Hugh Clark / BCT



NIGHT SKY BLOTTED OUT BY LIGHT POLLUTION
VISIBLE NIGHT SKY
VERY BAD
BAD
BETTER
BEST
Bad, better, best
Use outdoor lighting responsibly by only using it where it's needed, when it's needed, and in the amount required. Use the lowest light level required, limit blue-violet light, utilize timers or motion sensors, and use shielding.

# Bug-Friendly Lighting



# Atodiad 5

## Canllawiau Calendr Arolwg Ecoleg



I gael rhagor o wybodaeth am Ddyletswydd Adran 6 a rhywogaethau a chynefinoedd sydd o flaenoriaeth yng Nghymru, gweler yma: https://www.biodiversitywales.org.uk/en/legislation-guidance/section-6/